# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018

Amser: 09.03 - 10.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5069

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Tim England, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>John Hogg, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gavin Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gareth O'Shea, National Resources Wales |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.  Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ar yr ymateb a gafwyd gan Weinidog yr Amgylchedd cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 2.2 P-05-850 Amddiffyn Gwastatir Gwent ac atal traffordd arfaethedig yr M4

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- grwpio'r ddeiseb hon gyda deiseb P-05-838 Cefnogwch y Llwybr Du o ran Ffordd Liniaru'r M4 a thrafod y ddwy ddeiseb gyda'i gilydd yn y dyfodol;
- rhannu'r sylwadau ychwanegol gan y deisebydd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth;
- parhau i fonitro'r ddeiseb yng ngoleuni'r gwaith craffu cynhwysfawr ar y mater hwn gan yr ymchwiliad cyhoeddus ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal dadl lawn ar y mater cyn gwneud penderfyniad; a
- thrafod y ddeiseb eto unwaith y bydd unrhyw ddadleuon wedi'u cynnal.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-736 Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i lunio adroddiad sy'n canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau iechyd meddwl mewn argyfwng, ac i ddefnyddio'r adroddiad hwn fel sail ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn yn y dyfodol.

### 3.2 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Bu'n ddefnyddiwr gwasanaethau Both Parents Matter ac yn wirfoddolwr dros y mudiad; ac

mae'r deisebydd yn gweithio iddo dros dro ar hyn o bryd.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan CAFCASS Cymru a chytunodd i:

- ofyn barn y deisebydd ar y wybodaeth a gafwyd gan CAFCASS Cymru;
- ysgrifennu yn ôl at CAFCASS Cymru i ofyn bod copi o'r canllawiau ymarfer yn cael ei roi i'r Pwyllgor pan fyddant ar eu ffurf derfynol, ac i amlinellu'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu a ddarparwyd i ymarferwyr CAFCASS Cymru sy'n ymdrin ag ymddygiadau dieithrio; ac
- ystyried gofyn am ragor o wybodaeth gan sefydliadau eraill yn y maes hwn.

**3.3 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â sylwadau ychwanegol gan y deisebydd a chytunodd i:

- ysgrifennu at Vertex Pharmaceuticals i'w hannog i wneud cyflwyniad i GIG Cymru neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru ar drefniadau penodol i sicrhau bod Orkambi ar gael i gleifion yng Nghymru, naill ai fel rhan o gynllun peilot cychwynnol neu ar sail barhaus, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer gwneud hyn, neu am resymau'r cwmni dros beidio â chymryd y camau hyn; ac
- aros am y camau gweithredu gan y Pwyllgor Dethol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn San Steffan ynghylch ymchwiliad posibl i argaeledd Orkambi.

### 3.4 P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet i ailadrodd y cais am yr amserlen debygol ar gyfer penderfynu ar fuddion Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a'u cyfathrebu, a gofyn iddo roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r cymorth ariannol i fuddiolwyr unwaith y bydd buddion y cynllun wedi'u pennu.

### 3.5 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y bwrdd iechyd i:

- ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau ar gyfer newid gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg, gan gynnwys amserlenni a gwaith i ymgysylltu â chymunedau lleol yn y dyfodol; a
- gofyn am sicrwydd y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau yn ystod y gwaith o ddatblygu ysbyty newydd ac ni fydd gwasanaethau'n cael eu tynnu oddi ar Ysbyty Llwynhelyg cyn bod ysbyty newydd yn agor.

### 3.6 P-05-773 Peidiwch â Llenwi Safleoedd Tirlenwi!

Trafododd y Pwyllgor hanes y ddeiseb a chytunodd i'w chau, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cysylltiad diwethaf â'r deisebydd a'r cynnig blaenorol a wnaed gan Gyngor Caerdydd i ddwyn y mater hwn yn ei flaen yn lleol.

### 3.7 P-05-779 Sganio gorfodol gan gynghorau am ficrosglodion mewn anifeiliaid anwes

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyngor Sir Gâr ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r ffaith bod y deisebwyr bellach yn

fodlon â'r sefyllfa a'r cynnydd a wnaed wrth annog awdurdodau lleol yng Nghymru i fabwysiadu polisi sganio am ficrosglodion.

### 3.8 P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a chytunodd i:

- rannu manylion y ddeiseb â'r Pwyllgor Cyllid;
- monitro'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer trethi yn y maes hwn, gan gynnwys Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Llywodraeth y DU sydd yn yr arfaeth; a
- dychwelyd at y ddeiseb hon a deisebau eraill ynghylch plastigau untro unwaith y bydd gan y Pwyllgor ragor o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd ar y pwnc hwn.

### 3.9 P-05-837 Ynni Gwyrdd er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebwyr a chytunodd i:

- anfon sylwadau ychwanegol y deisebwyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a gofyn iddi ymateb i'r pwyntiau a godwyd a rhoi gwybod am y camau posibl y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd; a
- gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, yng ngoleuni'r sylwadau hyn a'r adroddiad diweddar gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd, ystyried trefnu dadl yn ystod amser y Llywodraeth ar ddatblygu ynni gwyrdd a chefnogaeth i'r gwaith hwn.

### 3.10 P-05-823 Gostwng y terfyn cyflymder ar yr A487 ym Mhenparcau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghyd â sylwadau ychwanegol gan y deisebydd. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd yr ymrwymiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr

Economi a Thrafnidiaeth y byddai'r deisebau sy'n dod i law, a barn trigolion lleol, yn cael eu hystyried yn ystod y broses o adolygu'r terfyn cyflymder.  Wrth wneud hynny, cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y deisebydd i egluro'r rhesymau dros hyn ac i egluro na all y Pwyllgor Deisebau ei hun wneud y newid y gofynnwyd amdano yn uniongyrchol.

**3.11 P-05-833 Gwella gwasanaethau rheilffordd i Gas-gwent**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghyd â sylwadau ychwanegol gan y deisebydd.  Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am esboniad manylach ynghylch argaeledd cerbydau, gan ofyn a yw Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob dull posibl i gael gafael ar gerbydau ychwanegol i wella gwasanaethau ledled Cymru.

## 4 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad gan y Pwyllgor

### 4.1 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan-Y Fenni

Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad a chytunodd i gau'r ddeiseb.

## 5 Papur i'w nodi

### 5.1 P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y papur.

## 6 Sesiwn dystiolaeth - P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Hogg, Tim England, Gavin Jones a Gareth O'Shea o Gyfoeth Naturiol Cymru.

Dywedodd staff Cyfoeth Naturiol Cymru y byddent yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y rhagolygon llifogydd sy'n gysylltiedig â Nant y Rhath.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 8 a 9

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Trafod y sesiwn dystiolaeth flaenorol – P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn y cyfarfod arfaethedig rhwng y rhanddeiliaid perthnasol.

## 9 Deisebau sydd â dros 5,000 o lofnodion

Nodwyd y papur a thrafododd y Pwyllgor gynnig i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y broses ddeisebu yn y dyfodol.